Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales




Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

# Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020: Canllawiau ar asesu cymhwysedd cyfranogwyr

**Fersiwn 9**

Ebrill 2022

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar sut i asesu a dangos cymhwysedd cyfranogwr unigol i gael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru.

Diben hyn yw darparu manylion pellach am y ffordd y bwriedir rhoi'r rheolau sylfaenol ar gymhwysedd cyfranogwyr a nodir yn rheolau ac amodau cymhwysedd WEFO ar gyfer cael cymorth gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020 (rheolau cymhwysedd Cymru) ar waith yn ymarferol. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau hyn yn gymwys i Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ac eithrio o dan amgylchiadau lle mae hyblygrwydd ar draws cronfeydd yn gymwys).

Mae pob cyfeiriad at 'ysgrifenedig' a 'dogfen' yn y canllawiau hyn yn golygu **naill ai** dogfen ar ffurf copi caled (llofnod 'gwlyb' lle y bo angen) **neu** gofnod electronig cyfatebol os bydd yn bodloni'r gofynion a nodir yn Adran 5.1.4.2 o reolau cymhwysedd Cymru.

Lle mae'r canllawiau hyn yn defnyddio'r term 'prosiect' yn hytrach na 'gweithrediad' diben hyw yw bod yn gyson â chanllawiau eraill a gyhoeddwyd gan WEFO. Noder bod 'gweithrediad' bob amser yn cynnwys o leiaf un 'prosiect'.

Nid yw'r canlynol yn rhan o'r asesiad o gymhwysedd cyfranogwyr ac, felly, maent y tu allan i gwmpas y ddogfen ganllaw hon.

- Diffiniadau o ddangosyddion a thystiolaeth o allbynnau a chanlyniadau prosiectau.
- Rhoi tystiolaeth ynglŷn â realiti gweithgarwch prosiect (pethau a gynhyrchir a gwasanaethau a ddarperir gan y prosiect).
- Data cyfranogwyr/microddata Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Gweler y canllawiau ar fonitro a gwerthuso ar wefan WEFO: https://llyw.cymru/monitro-gwerthuso-prosiectau-cronfeydd-strwythurol-yr-ue-canllawiau

## RHAN 1 – ASESU CYMHWYSEDD AC ADDASRWYDD I GAEL CYMORTH ARIANNOL

**PAM mae angen asesu a dangos cymhwysedd cyfranogwr i gael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.**

1. Mae WEFO yn disgwyl i ddigon o dystiolaeth fod ar gael i ddangos bod y cyfranogwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a bennwyd ar gyfer y **rhaglen, y flaenoriaeth a'r prosiect** sy'n rhoi cymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop iddo

2. **Fel arfer** dylai'r dystiolaeth hon ddod o ffynhonnell **annibynnol** - yn hytrach na hunan ddatganiad gan y cyfranogwr ei hun - a bod wedi'i dogfennu'n glir yng nghofnodion y cyfranogwr er mwyn i WEFO ac archwilwyr y CE/cenedlaethol allu gwirio sut y gwnaeth y buddiolwr neu'r partner cyflawni fodloni ei hun bod y cyfranogwr yn gymwys i gael cymorth ar y cam cofrestru.

3. Mae'n hanfodol cynnal asesiad o addasrwydd hefyd er mwyn asesu amgylchiadau personol y cyfranogwr a nodi sut y bydd y gweithgaredd a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn addas ac yn effeithiol o ran diwallu ei anghenion unigol. Gall asesiad annigonol o addasrwydd arwain at benderfyniadau gwael o ran gwerth am arian, gyda'r canlyniad na fydd costau prosiect, o bosibl, yn gymwys i gael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

**YR HYN y mae angen darparu tystiolaeth ar ei gyfer**

4. Mae nifer o gwestiynau am addasrwydd a chymhwysedd y mae angen eu hateb ar y cychwyn. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu dogfennu fel rhan graidd o gofnodion y cyfranogwr a bod yn rhan o lwybr archwilio'r prosiect:

   <u>Yn Gyntaf</u> - a yw'r cyfranogwr yn gymwys i gael cymorth o dan y **rhaglen**; h.y. a oes gan y cyfranogwr yr **hawl gyfreithiol i fyw, gweithio neu astudio** yn ardal rhaglen sy'n rhoi cymorth.

   <u>Yn Ail</u> - a yw'r cyfranogwr yn gymwys i gael cymorth o dan amcanion penodol y **flaenoriaeth;** h.y. a yw'r unigolyn yn rhan o'r grŵp targed o gyfranogwyr ar gyfer yr amcan penodol hwn.

   <u>Yn Drydydd</u> – a yw'r cyfranogwr yn gymwys i gael cymorth o dan nodau ac amcanion **prosiect** unigol Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Gellir cynnal yr asesiad hwn ochr yn ochr â'r asesiad o addasrwydd er mwyn nodi'r rhwystrau neu'r heriau penodol sy'n wynebu'r cyfranogwr unigol a mynd i'r afael â hwy.

**PWY ddylai gynnal yr asesiad a chael y dystiolaeth?**

5. Y buddiolwr neu, lle y bo'n briodol, y darparwr neu'r partner cyflawni sy'n cyflawni'r gweithdrefnau cofrestru cyfranogwyr ar ran y buddiolwr. Y **buddiolwr sy'n penderfynu** pwy sy'n cynnal yr asesiadau.

**PRYD/ BLE y cynhelir yr asesiad ac y ceir y dystiolaeth?**

6. **Dylid** darparu tystiolaeth o gymhwysedd a chadw copïau ardystiedig naill ai ar adeg cofrestru neu ar ddiwrnod cyntaf y gweithgaredd a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Sut bynnag, ni ddylid cynnwys cyfranogwyr mewn hawliad nes i'w cymhwysedd gael ei gadarnhau.

7. Y buddiolwyr sy'n penderfynu ar y dull gorau o weithredu ar gyfer ei brosiect, p'un a gaiff ei gyflawni ganddo ef ei hun neu gan bartner cyflawni, ond dylai ystyried y risgiau cysylltiedig. Er enghraifft, os caiff cyfranogwyr eu cofrestru ar yr amod bod yn rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth addas yn ddiweddarach, yna:

   - Mae'n rhaid rhoi gweithdrefnau a rheolaethau ar waith er mwyn atal cyfranogwyr rhag cael eu datgan i WEFO/Corff Cyfryngol **nes** i dystiolaeth addas gael ei darparu gan y cyfranogwr.
   - Os na fydd y cyfranogwr yn gallu darparu tystiolaeth addas na rhoi rheswm dros gymhwyso eithriad wedyn, yna mae'n rhaid lleihau unrhyw ddangosyddion cyfranogwyr cysylltiedig ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop a hawlir yn unol â hynny.

## RHAN 2: Y FETHODOLEG AR GYFER CAEL TYSTIOLAETH O GYMHWYSEDD I GAEL ARIAN GAN GRONFA GYMDEITHASOL EWROP

8. Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau ar y **ffordd** y mae WEFO yn mynnu bod cymhwysedd cyfranogwyr yn cael ei wirio. Cyn cael y dystiolaeth, bydd angen i fuddiolwyr nodi beth yw'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cyfranogwr ar lefel Rhaglen, Blaenoriaeth a Phrosiect. Ar ôl iddynt eu nodi, byddent wedyn yn dilyn y broses a nodir ar dudalen 7 er mwyn cael y dystiolaeth berthnasol.

9. Bydd y prosiect yn cydymffurfio â rheolau cymhwysedd WEFO os mabwysiedir y fethodoleg yn y canllawiau hyn. Bydd WEFO ac archwilwyr yn cadarnhau a yw'r buddiolwr neu'r partner cyflawni wedi dilyn y fethodoleg yn gywir. Gall **methu â chydymffurfio** â'r dull gweithredu gofynnol **yn fwriadol** – megis defnyddio'r opsiwn 'eithriad/ dim tystiolaeth' (Cam 4 – gweler isod) **cyn gwneud ymdrech resymol** i gael tystiolaeth gryfach gan y cyfranogwr – arwain at ostyngiad yn nifer y cyfranogwr sy'n gymwys i gael cymorth ariannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

### NODI'R MEINI PRAWF CYMHWYSEDD HANFODOL

#### <u>Lefel Rhaglen</u>

10. Mae'n rhaid cael prawf i ddangos bod gan y cyfranogwr **hawl gyfreithiol i fyw yn y DU** ac, os yw'n berthnasol i'r prosiect, **weithio neu astudio yn y DU** yn ystod y cyfnod y bydd y prosiect yn cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. (Gweler hefyd Adran 28 o reolau cymhwysedd Cymru am ragor o wybodaeth am hyn). Mae hyn yn gymwys i <u>bob</u> cyfranogwr posibl.

#### Cymhwysedd daearyddol cyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop

11. Rhaid bod cyfranogwyr yn byw neu'n gweithio yn y rhanbarth rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n ariannu'r prosiect, ni waeth ble mae'r gweithgaredd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn digwydd. Mae'n rhaid i gyfeiriad llawn yr unigolion a, lle y bo'n gymwys, gyfeiriad eu gweithle arferol neu'r lleoliad lle maent yn astudio fod wedi'u nodi yng nghofnodion y cyfranogwr ynghyd â'r holl dystiolaeth arall i ddangos eu bod yn gymwys.

12. Fel rheol gyffredinol nid oes angen cael prawf ategol annibynnol bod yr unigolyn yn byw, yn gweithio neu'n astudio yn rhanbarthau rhaglenni Cymru, er y gall fod amgylchiadau penodol lle y gallai fod angen prawf o'r fath, a dylid cytuno ar yr achosion hyn â'ch swyddog datblygu prosiect.

13. Pan allai unigolion fod yn gymwys i gael cymorth gan Raglen Dwyrain Cymru a Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd mae'n rhaid dilyn y rheolau cymhwysedd a nodir yn adran 25.1 o reolau cymhwysedd Cymru er mwyn cadarnhau bod y cyfranogwr yn gymwys i gael cymorth gan y rhanbarth cywir. Nodir trefn blaenoriaeth yn y tabl yn adran 25.1 o reolau cymhwysedd Cymru er mwyn nodi pa ranbarth rhaglen sy'n gymwys. Mae'n rhaid i'ch asesiad o'r drefn blaenoriaeth a pha feini prawf cymhwysedd sy'n gymwys (ac y mae angen darparu tystiolaeth ynglŷn â hwy) gael ei ddogfennu yng nghyfnod y cyfranogwr.

14. Yn achos cyfranogwyr digartref, bydd y cyngor a roddir o dan Adran 25.1 o reolau cymhwysedd Cymru yn gymwys.

**Lefel Blaenoriaeth**

15. Tystiolaeth bod yr unigolyn yn **rhan o'r grŵp targed o gyfranogwyr** a bennwyd gan amcanion penodol y Flaenoriaeth berthnasol ac, os oes angen, y cytunwyd arno rhwng y buddiolwr a WEFO (e.e. a nodwyd yn ôl statws cyflogaeth, cyrhaeddiad addysgol, grŵp oedran ac ati).

**Lefel Prosiect**

16. Caiff meini prawf penodol eu pennu gan y buddiolwr drwy gytundeb â WEFO fel meini prawf cymhwyso'r prosiect i gadarnhau a all y cyfranogwr gael cymorth gan y prosiect penodol. Os caiff cynllun busnes buddiolwr ei gymeradwyo ar sail targedu grŵp o unigolion, mae dangos nodweddion priodol y grŵp yn un o'r amodau mynediad ar gyfer prosiect y mae'n rhaid darparu tystiolaeth ynglŷn ag ef cyn y rhoddir cymorth.

17. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol cael tystiolaeth ar gyfer meini prawf canlynol o ran cyfranogwyr **hyd yn oed** os ydynt yn feini prawf cymhwyso ar gyfer prosiect:

- Anableddau, cofnodion meddygol neu farn feddygol, cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio, camddefnyddio sylweddau.
- Rhyw/hunaniaeth rywiol
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Ethnigrwydd
- Crefydd neu gredoau
- Mae'n nodi ei fod yn rhan o grŵp lleiafrifol neu gymuned wedi'i hymyleiddio
- Mae'r cyfranogwr yn gyn-droseddwr
- Digartrefedd (heblaw am rai ymholiadau sydd angen eu gwneud er mwyn cadarnhau p'un o ddau ranbarth rhaglenni'r EU yng Nghymru a all roi cymorth)

- Cofnodion sy'n ymwneud â phobl eraill, er enghraifft: plant, dibynyddion, cyfrifoldebau gofalu

18. Os yw'r ffactorau uchod yn rhan o'r meini prawf cymhwyso/grŵp targed o gyfranogwyr, mae'n rhaid dilyn yr egwyddorion canlynol:

    - Mae'n rhaid i'r cyfranogwr gadarnhau ei fod yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Dylai'r cadarnhad hwn fod yn **benodol, wedi'i lofnodi ac wedi'i ddyddio** - yn electronig neu ar ffurf dogfennau papur - a chael ei gadw gyda chofnodion y cyfranogwr. Mae 'penodol' yn golygu bod yn rhaid datgan y meini prawf cymhwysedd perthnasol; nid yw datganiad cyffredinol megis 'Rwy'n bodloni'r holl feini prawf cymwys' yn dderbyniol. Gall y cadarnhad fod yn rhan o ffurflenni a datganiadau cyfranogwyr eraill.
    - Mae'r **'asesiad o addasrwydd'** yn arbennig o bwysig ac mae'n rhaid iddo ddiwallu anghenion y cyfranogwr mewn perthynas â'r ymyriad sy'n cael ei gynnig. Mae'n bwysig bod yr asesiad yn nodi'n glir y cysylltiad rhwng anghenion y cyfranogwr/y rhwystrau y mae'n eu hwynebu a'r canlyniad cadarnhaol a geisir drwy gymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

19. Wrth gwrs, dylai buddiolwyr neu bartneriaid cyflawni fod yn effro i'r posibilrwydd bod gwybodaeth anwir yn cael ei darparu er mwyn cael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'n rhaid ymchwilio i achosion o dwyll a amheuir yn llawn ac ni ddylai buddiolwyr gofrestru cyfranogwyr oni fyddant yn fodlon, hyd eithaf eu gwybodaeth, eu bod yn bodloni'r meini prawf.

**DILYN Y PEDWAR CAM AR GYFER CAEL Y DYSTIOLAETH**

20. Mae pedwar Cam ar gyfer darparu tystiolaeth o gymhwysedd a nodir isod ac y mae'n rhaid eu hystyried yn y drefn a ddisgrifir isod ac sydd hefyd wedi'u nodi yn y siart llif ar dudalen 12.

21. Mae'n rhaid i fuddiolwyr bob amser ofyn am 'dystiolaeth a ffefrir' h.y. Cam 1 isod yn y lle cyntaf. Os nad oes unrhyw dystiolaeth ar gyfer Cam 1 ar gael gall y buddiolwr dderbyn tystiolaeth o dan y Camau eraill (yn y drefn isod) ond mae'n rhaid iddo nodi pa ymdrechion sydd wedi'u gwneud i gael tystiolaeth o dan Gam 1 a pham nad yw ar gael. Yn yr un modd, wrth symud i lawr y Camau dylid cofnodi'r ymdrechion i gael tystiolaeth a'r rhesymau pam nad yw'r dystiolaeth ar gael o dan bob Cam.

22. Bydd hefyd angen i'r buddiolwr nodi pam mae o'r farn bod y dystiolaeth y mae wedi'i derbyn (os nad yw wedi dod o'r rhestr o 'dystiolaeth a ffefrir') yn ddigonol i ddangos bod y cyfranogwr yn gymwys i gael cymorth. Caiff p'un a yw'r cyfiawnhad hwn yn pasio prawf rhesymoldeb ei ystyried ar y cam dilysu/archwilio.

23. Ni ddylid defnyddio tystiolaeth amgen h.y. Cam 3 nac eithriadau yn seiliedig ar risg h.y. Cam 4 cyn ‘tystiolaeth a ffefrir’ am resymau hwylustod neu symlrwydd, ac ni fydd WEFO yn derbyn eithriadau yn seiliedig ar risg fel y prif ddull o asesu cymhwysedd.

24. Efallai y bydd archwilwyr yn edrych ar y dulliau a ddefnyddiwyd gan fuddiolwyr er mwyn tynnu sylw at achosion posibl o gamddefnyddio’r rheolau a/neu dueddiadau anarferol o gymharu â phrosiectau tebyg ac, felly, mae’n rhaid i fuddiolwyr ddefnyddio’r fethodoleg fel y bwriadwyd.

25. I grynhoi, mae mabwysiadu’r dull gweithredu isod yn golygu mai dim ond pan nad yw’r buddiolwr neu’r partner cyflawni yn argyhoeddedig bod yr unigolyn yn bodloni’r amodau mynediad, yn seiliedig ar y wybodaeth a’r dogfennau y mae wedi’u cyflwyno, yr asesiad o addasrwydd neu, lle y bo’n briodol a thrwy eithriad, y rhesymau a roddwyd gan y cyfranogwr i esbonio pan nad oedd ganddo unrhyw ‘dystiolaeth a ffefrir’ o dan Gam 4, y dylid gwrthod rhoi cymorth arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

**CAM 1: GOFYN AM EITEMAU O’R RHESTR O DYSTIOLAETH ‘A FFEFRIR’**

26. Gweler RHAN 4 o’r canllawiau hyn ar gyfer y rhestr o dystiolaeth ‘a ffefrir’.

Noder:

- Dim ond **un eitem** o bob rhestr bwledi sydd ei hangen.
- Y bwriad yw cael **dogfennau sydd ar gael yn rhwydd** i’r cyfranogwr. Y dull gweithredu sydd wedi’i fabwysiadau yw <u>peidio</u> â gofyn i’r cyfranogwr fuddsoddi amser neu ymdrech ychwanegol na mynd i gostau ychwanegol wrth geisio cael rhywbeth nad oes ganddo ar hyn o bryd.
- Os oes gan y cyfranogwr y dystiolaeth a ffefrir ond nad yw wedi dod â’r eitem gydag ef pan ofynnwyd iddo wneud hynny, dylid gofyn iddo ddychwelyd gyda’r dystiolaeth ar amser cyfleus, cyn iddo gael ei gofrestru neu ar ddiwrnod cyntaf y gweithgareddau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop os yw’n bosibl. Gweler hefyd yr adran sy’n dwyn y teitl ‘Pryd/ Ble y ceir y dystiolaeth’ yn y nodyn cyfarwyddyd hwn ac Adran 28 o reolau cymhwysedd Cymru.
- Os yw’n bosibl, ceisiwch gael eitem o dystiolaeth a fydd yn cadarnhau mwy nag un amod cymhwysedd, e.e. gall y cyfranogwr fynd â slip cyflog diweddar gydag ef i gadarnhau (a) ei fod yn gweithio a (b) am ei fod yn debygol o gynnwys rhif Yswiriant Gwladol y cyfranogwr, gan ddangos bod ganddo hawl gyfreithiol i wneud hynny.

**CAM 2: OS NAD OES UNRHYW DYSTIOLAETH A FFEFRIR AR GAEL DYLID YSTYRIED ATGYFEIRIADAU/CYFLWYNIADAU GAN DRYDYDD PARTÏON ANNIBYNNOL**

27. Pan ddefnyddir atgyfeiriadau/cyflwyniadau gan drydydd parti annibynnol (naill ai unigolyn neu sefydliad nad yw'n fuddiolwr nac yn bartner cyflawni ar gyfer y gweithrediad) y mae'r unigolyn eisoes yn ymwneud ag ef ac sydd felly yn gyfarwydd â'i amgylchiadau personol, ei brofiad o weithio a/neu ei gyrhaeddiad addysgol, bydd angen darparu'r canlynol:

    - Enw'r darpar gyfranogwr
    - Teitl y gweithrediad o fewn Cronfa Gymdeithasol Ewrop/Rhif Adnabod Achos WEFO os yw ar gael
    - Y meini prawf cymhwysedd penodol sy'n cael eu cadarnhau e.e.
        - Cyrhaeddiad addysgol
        - Profiad o reoli neu weithio
        - Statws cyflogaeth
    - Y gydberthynas rhwng y darpar gyfranogwr a'r trydydd parti
    - Y gydberthynas rhwng y trydydd parti a'r gweithrediad (gan gadarnhau annibyniaeth/nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau)

28. Mae'n rhaid i'r cadarnhad ysgrifenedig sy'n cynnwys y wybodaeth hon gael ei lofnodi a'i ddyddio gan y trydydd parti. Mae trydydd partïon posibl yn cynnwys, er enghraifft, un o adrannau'r llywodraeth, CThEM, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion neu drydydd partïon megis elusen, sefydliad anllywodraethol, sefydliad gwirfoddol, sefydliad nid er elw, neu weithiwr proffesiynol arall sy'n rhoi cymorth ac arweiniad i'r cyfranogwr. Nid yw cysylltiadau personol/tystlythyrau yn dderbyniol.

29. **Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r trydydd parti sy'n atgyfeirio'r cyfranogwr fod yn annibynnol ar y gwaith o reoli a chyflawni'r prosiect o fewn Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn uniongyrchol**, heb unrhyw wrthdaro buddiannau (buddiannau ariannol nac unrhyw fuddiannau eraill)

30. Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau penodol lle y byddai atgyfeiriad gan gyflogwr cyfranogwr yn dderbyniol. Lle y gall hyn fod yn berthnasol i'ch gweithrediad trafodwch y mater / cytunwch arno â'ch swyddog datblygu prosiect.

31. Gall fod nifer gyfyngedig o sefyllfaoedd lle nad oes unrhyw drydydd parti annibynnol a all ddarparu atgyfeiriad/cyflwyniad a lle y byddai symud yn syth i Gam 3 yn ddilyniant mwy rhesymegol wrth gadarnhau a yw'r cyfranogwr yn gymwys. Mae'n rhaid cytuno ar hyn â'r swyddog datblygu prosiect a chadw cofnod o'r cytundeb hwn at ddibenion archwilio.

**CAM 3: OS NAD OES UNRHYW DYSTIOLAETH A FFEFRIR NAC UNRHYW ATGYFEIRIAD/CYFLWYNIAD GAN DRYDYDD PARTI ANNIBYNNOL AR GAEL, YSTYRIWCH DDOGFENNAU AMGEN CREDADWY**

32. Mae enghreifftiau o dystiolaeth ‘amgen’ yn cynnwys:

- Dogfennau o’r rhestr o dystiolaeth ‘a ffefrir’ sy’n rhy hen i gael eu dosbarthu’n dystiolaeth ‘a ffefrir’ neu sydd wedi dod i ben.
- Dogfennau â gwybodaeth rannol e.e. y cyfenw ond nid yr enw cyntaf.
- Cyfuniad o ddogfennau nad ydynt wedi’u rhestru fel tystiolaeth ‘a ffefrir’ y mae’r buddiolwr o’r farn eu bod yn addas i ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd.

33. Os bydd buddiolwr yn fodlon ar dystiolaeth amgen o’r fath, **rhaid** dogfennu’r cyfiawnhad dros fwrw ymlaen ar sail y dystiolaeth hon fel rhan o gofnodion y cyfranogwr. Bydd angen i gyfiawnhad gynnwys y canlynol:

- Pa ymdrech y mae’r buddiolwr wedi’i gwneud i gael tystiolaeth ‘a ffefrir’ a pham nad oes gan y cyfranogwr unrhyw dystiolaeth ‘a ffefrir’,
- Esboniad ynglŷn â pham mae’r eitemau amgen yn darparu tystiolaeth ddarbwyllol bod y cyfranogwr yn bodloni’r meini prawf

34. Unwaith eto, y bwriad yw cael dogfennau sydd eisoes ar gael yn rhwydd i’r cyfranogwr. Ni ddylid gofyn i’r cyfranogwr fuddsoddi amser nac ymdrech ychwanegol na mynd i gostau ychwanegol wrth geisio cael rhywbeth nad oes ganddo ar hyn o bryd.

**CAM 4: OS NAD OES UNRHYW DYSTIOLAETH A FFEFRIR, ATGYFEIRIAD GAN DRYDYDD PARTI ANNIBYNNOL NA THYSTIOLAETH AMGEN AR GAEL, YSTYRIWCH A ELLIR CYFIAWNHAU EITHRIAD I’R GOFYNION O RAN TYSTIOLAETH.**

35. Os yw’r buddiolwr yn fodlon bod y cyfranogwr yn dal yn gymwys i gael cymorth, mae’n rhaid dogfennu unrhyw gyfiawnhad dros fwrw ymlaen fel rhan o gofnodion y cyfranogwr.

    Rhaid i’r cyfiawnhad gynnwys:

- Cadarnhad bod y buddiolwr wedi ceisio casglu’r dystiolaeth ofynnol drwy ddilyn pob un o’r tri cham blaenorol a sut y gwnaed hynny.
- Y rhesymau pam nad oes gan y cyfranogwr unrhyw dystiolaeth ‘a ffefrir’ nac unrhyw dystiolaeth amgen.
- Y sail resymegol dros barhau i gefnogi’r unigolyn.

36. **Ni fydd WEFO yn derbyn eithriadau yn seiliedig ar risg fel y prif ddull o asesu cymhwysedd a dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio'r dull hwn o benderfynu ar gymhwysedd.**

**OS NAD OES UNRHYW RESWM DROS GYFIAWNHAU EITHRIAD**

37. Ni fydd yr unigolyn yn gymwys i gael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop oni cheir tystiolaeth. Gall y cyfranogwr ddewis gofyn am ddogfennau dyblyg lle y bo'n ymarferol (budd-daliadau, credydau treth, gohebiaeth sy'n dangos y rhif Yswiriant Gwladol ac ati) ond dylai'r cyfranogwr wneud hyn o'i ddewis ei hun – ni ddylai fod yn un o ofynion WEFO. Wrth gwrs, gall buddiolwr neu bartner cyflawni ddewis rhoi cymorth i'r unigolyn gan ddefnyddio ffynonellau eraill o gyllid (y tu allan i'r prosiect a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop).

**AC EITHRIO BUDDIOLWYR SY'N ADRANNAU NEU ASIANTAETHAU'R LLYWODRAETH SY'N DAL DATA DINASYDDION AR GYFER EU SWYDDOGAETHAU STATUDOL/CRAIDD:**

38. Pan fydd y math hwn o fuddiolwr neu bartner cyflawni yn gallu dilysu cymhwysedd yn uniongyrchol ar sail ei gofnodion presennol, nid oes angen cael tystiolaeth ychwanegol gan ddilyn camau 1-4 uchod.

39. Mae'n rhaid i hyn, wrth gwrs, gydymffurfio â'r holl gyfreithiau diogelu data sy'n gymwys, gan gynnwys GDPR.

40. Y sefydliadau sydd gan WEFO mewn golwg ar gyfer y dull gweithredu hwn yw'r rhai sy'n dal data ar ddinasyddion fel mater o drefn er mwyn darparu gwasanaethau megis gwasanaethau treth, budd-daliadau a chyflogaeth, er enghraifft:

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Canolfan Byd Gwaith
- Cyllid a Thollau EM
- GIG/Byrddau Iechyd
- Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

41. Felly, er enghraifft, lle mae'r math hwn o sefydliad yn fuddiolwr neu'n bartner cyflawni ac mae angen cadarnhau oedran neu statws cyflogaeth unigolyn (at ddibenion cadarnhau cymhwysedd o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop) yna gall edrych ar ei gofnodion ei hun a gweithredu ar y sail honno. Nid oes unrhyw ofyniad i ofyn i gyfranogwyr gyflwyno dogfennau ychwanegol na cheisio atgyfeiriad gan drydydd parti, a hynny dim ond er mwyn cadarnhau'r hyn y mae'r buddiolwr yn ei wybod eisoes.


42. Nid yw'r dull gweithredu hwn yn newid y gofynion safonol ynglŷn â chadw dogfennaeth a thrywydd archwilio llawn.

43. Mae'r buddiolwr yn dal i gadarnhau cymhwysedd ar adeg cofrestru yn y ffordd arferol, gan edrych i weld, er enghraifft, fod ei systemau gwybodaeth ei hun yn cadarnhau oedran, cyfeiriad, statws cyflogaeth ac ati unigolyn.

44. Mae'n rhaid i'r buddiolwr wneud cofnod o'i swyddogion yn dilyn y weithdrefn h.y. creu nodyn neu ddatganiad y cadarnhawyd y cofnodion gwreiddiol, dyddiad ac enw'r swyddog a'u cadarnhaodd.

45. Bydd timau dilysu ac archwilio yn archwilio'r nodiadau/datganiadau hyn fel tystiolaeth bod cymhwysedd wedi'i gadarnhau. At hynny, lle mae gan dimau dilysu neu archwilio bryderon ynglŷn â'r weithdrefn a ddilynwyd neu os penderfynant ailgadarnhau'r wybodaeth eu hunain drwy edrych ar sampl o unigolion drwy systemau gwybodaeth wreiddiol y buddiolwr, cadwant yr hawl i wneud hynny. Lle nad oes modd cael y lefel hon o fynediad yn hawdd, ni chaniateir defnyddio'r dull eithriadol hwn.

# Assessing ESF Participant Eligibility



## RHAN 3 – Cwestiynau Cyffredin

**C1): Os cadarnheir cymhwysedd cyfranogwr drwy atgyfeiriad, neu ohebiaeth debyg gan DWP/y Ganolfan Byd Gwaith neu Gyrfa Cymru, a oes angen i'r buddiolwr neu'r partner cyflawni ddangos sut roedd y sefydliad hwnnw yn gallu darparu cadarnhad o'r fath.**

A1): Nac oes, gellir derbyn y ddogfen atgyfeirio yn ddidwyll ar ei golwg os nad oes unrhyw wybodaeth i'r gwrthwyneb; nid ystyrir bod atgyfeiriadau o'r fath yn 'hunanddatganiadau' gan gyfranogwyr.

**C2): Mewn achosion lle mae unigolyn wedi'i drosglwyddo o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i'r Lwfans Ceisio Gwaith newydd neu Gredyd Cynhwysol cyn cofrestru ar gyfer un o ymyriadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, mae hyn yn golygu, i bob pwrpas, ei fod wedi'i drosglwyddo o fod yn economaidd anweithgar i fod yn ddi-waith. O ganlyniad, bydd ei statws cyflogaeth newydd yn golygu y bydd yn cael ei ystyried yn unigolyn di-waith yn y byrdymor. A fydd yn gymwys i gael cymorth gan brosiectau sy'n targedu cyfranogwyr sy'n ddi-waith yn yr hirdymor, sef ei statws cyflogaeth cyn iddo gael ei drosglwyddo**?

A2): Bydd WEFO yn disgwyl gweld tystiolaeth o statws cyflogaeth cyfranogwr (cyflogedig/di-waith/hunangyflogedig) lle mae hyn yn ofynnol o dan feini prawf prosiect penodol ar gyfer cymorth.

Nid yw'r newid yn y math o fudd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o reidrwydd yn golygu newid ym mharodrwydd unigolyn i weithio neu ei statws ar y farchnad lafur. Sut bynnag, nid yw budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn pennu cymhwysedd o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop – dim ond gwir statws cyflogaeth cyfranogwr. Mae Atodiad A yn esbonio hyn yn fanylach.

Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol cael tystiolaeth annibynnol ynglŷn â faint o amser y bu cyfranogwr yn ddi-waith, hyd yn oed os yw'n un o feini prawf cymhwyso prosiect neu'n ofyniad gweithredol/amcan-benodol strategol. Gall y cyfranogwr hunanddatgan faint o amser y bu'n ddi-waith.

Os yw'r ffactorau hyn (h.y. bod yn ddi-waith yn yr hirdymor) yn rhan o'r meini prawf cymhwyso/grŵp targed, mae'n rhaid dilyn yr egwyddorion a nodir ar Dudalen 7.

**C3): O dan raglen 2007-2013 nid oedd yn ofynnol darparu tystiolaeth o gyrhaeddiad addysgol. Mae hwn yn ofyniad o dan raglenni 2014-2020, yn enwedig mewn perthynas â Blaenoriaethau Sgiliau ar gyfer Twf o fewn rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Beth yw'r gofynion o ran darparu tystiolaeth yn achos cyfranogwr y mae ei ymyriad o fewn Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn rhychwantu cyfnodau rhaglenni 2007-2013 a 2014-2020**?

A3): Nid yw'n ofynnol gofyn am dystiolaeth o gyrhaeddiad addysgol os oedd y cyfranogwr yn cael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop cyn 1 Ionawr 2015. Cyhoeddodd WEFO ganllawiau newydd a oedd yn gymwys i Raglen 2007-2013 ym mis Tachwedd 2014. Byddai'r broses o wirio tystiolaeth yn dechrau o 1 Ionawr 2015 ymlaen ac ni fyddai'r gofyniad i gyflwyno tystiolaeth yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol. Os ymunodd y cyfranogwr â'i ymyriad Cronfa Gymdeithasol Ewrop cyn 1 Ionawr 2015 gall barhau tan ddiwedd ei ymyriad heb fod angen cyflwyno tystiolaeth. Os cofrestrodd y cyfranogwr ar gyfer cymorth o 1 Ionawr 2015 ymlaen, y rheolau newydd fydd yn gymwys.

**C4): Beth os yw'r meini prawf prosiect-benodol yn amod negyddol sy'n mynnu nad oes gan gyfranogwr rywbeth e.e. mae unigolyn yn gymwys os nad oes ganddo gymwysterau addysg bellach/uwch neu alwedigaethol penodol neu'r lefel/nifer o gymwysterau?**

A4): Mae'n amlwg nad yw'n bosibl 'profi rhywbeth negyddol' megis y ffaith nad oes gan gyfranogwr gymwysterau lefel uwch fel y gall hunanddatgan ei gymhwysedd yn yr amgylchiadau hyn.

**C5): Sut y gallaf gadarnhau a oes gan gyfranogwr gymhwyster ACCA/ FCCS?**

A5): Ar wefan Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA) ceir cyfeiriadur o aelodau ACCA/ FCCS, sy'n eich galluogi i chwilio gan ddefnyddio enw llawn yr unigolyn dan sylw a/neu rif ei dystysgrif.

**C6): Pa dystiolaeth a fyddai'n dderbyniol yn achos profi hawl gyfreithiol plentyn i fyw yn y DU os yw'r plentyn dan ofal yr awdurdod lleol ac na all gael gafael ar y dystysgrif geni/mabwysiadu?**

A6): Mewn achosion o'r fath gellir ystyried bod cadarnhad ysgrifenedig gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn yn dystiolaeth addas o hawl gyfreithiol y plentyn i fyw yn y DU. Os mai'r un awdurdod lleol yw'r buddiolwr mewn gweithrediad, mae'n rhaid i'r adran gwasanaethau cymdeithasol fod yn annibynnol ar yr adran/buddiolwr sy'n rheoli ac yn cyflawni'r gweithrediad yn uniongyrchol, gyda dyletswyddau wedi'u gwahanu'n glir. Fel arall, ystyrir bod cadarnhad ysgrifenedig gan drydydd parti annibynnol, perthnasol a fu'n gofalu am y plentyn yn ardal yr awdurdod lleol e.e. sefydliad gofalu/maeth a gafaelwyd gan yr awdurdod lleol, yn dystiolaeth addas o hawl y plentyn i fyw yn y DU.

**C7): Os bydd trwydded/fisa yn cofnodi statws o 'no recourse to public funds' a fydd yr unigolyn yn gymwys i gael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop?**

A7): Bydd, bydd yr unigolyn yn gymwys i gael cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop o hyd, ar yr amod y bodlonir yr holl feini prawf cymhwysedd eraill e.e. yr hawl gyfreithiol i fyw, gweithio neu astudio yn y DU. Mae'r dosbarthiad 'arian cyhoeddus'

yn y cyd-destun hwn yn cael ei bennu gan Bolisi Mewnfudo'r DU ac **nid** yw'n cynnwys Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

Ceir dolen i ganllawiau Llywodraeth y DU isod ac mae Adran 28 o reolau cymhwysedd cenedlaethol Cymru hefyd yn cyfeirio atynt.

https://www.gov.uk/government/publications/public-funds--2/public-funds

**C8): Pryd bydd tystiolaeth o gymhwysedd yn rhy hen / anghyfredol?**

A8): Bydd rhai dogfennau bob amser yn ddilys (e.e. tystysgrifau cymwysterau) ond mae angen i wybodaeth am amgylchiadau presennol cyfranogwr gael ei hategu gan dystiolaeth ddiweddar. Mae'r canllawiau canlynol yn gymwys:

- Slip cyflog diweddar = a gyflwynwyd yn ystod y tri mis diwethaf.
- Dogfennau a gynhyrchir yn flynyddol (sy'n ymwneud â threth, credydau treth) = y rhai diweddaraf a gyhoeddwyd (felly ni ddylent fod yn fwy na 12 mis oed).
- Llythyrau dyfarnu (Grantiau, Budd-daliadau, Benthyciadau i Fyfyrwyr) - mae'r llythyr gwreiddiol yn dderbyniol oni chaiff llythyrau dyfarnu cylchol eu hanfon (e.e. hysbysiad blynyddol o gredydau treth).
- Gohebiaeth arall (anghylchol) = heb fod yn fwy na 12 mis oed.
- Cyflwyniadau/atgyfeiriadau gan drydydd parti perthnasol = o fewn y tri mis diwethaf.

**C9) Sut y gall gwladolion Wcráin sy'n cyrraedd Cymru ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd sylfaenol i gael cymorth gan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop?**

A9) Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau'r cynlluniau/llwybrau mynediad canlynol ar gyfer unigolion o Wcráin sy'n cyrraedd y DU. Maent yn rhoi caniatâd iddynt aros yn y DU am gyfnod o 36 mis gyda mynediad at (i) cyflogaeth, h.y. hawl i weithio'n gyfreithlon yn y DU (ii) astudiaeth a (iii) arian cyhoeddus:

- Y Cynllun Teuluoedd o Wcráin – ar gyfer Wcreiniaid ac aelodau o'u teulu agos nad ydynt yn Wcreiniaid a oedd yn preswylio yn Wcráin cyn 1 Ionawr 2022 ac sydd â theulu yn y DU
- Y Cynllun Cartrefi i Wcráin – yn galluogi gwladolion Wcráin i gael eu noddi gan breswylwyr yn y DU lle mae llety addas ar gael ac am o leiaf 6 mis.

Yn y ddau gynllun hyn, unwaith y mae cais yn llwyddiannus, bydd unigolion sydd â phasbort Wcráin dilys a/neu basbort Wcráin sydd wedi dod i ben ond sydd â stamp estyniad ffurfiol gan Lywodraeth Wcráin yn cael llythyr caniatâd swyddogol gan Fisâu a Mewnfudo y DU. Bydd hyn yn caniatáu iddynt deithio i'r DU. Pan fydd unigolyn yn

cyrraedd, bydd swyddogion Llu'r Ffiniau yn rhoi **stamp mynediad 6 mis** yn ei basbort a gellir defnyddio'r stamp hwn fel **tystiolaeth o'r hawl i weithio, astudio a hawlio budd-daliadau** yn y DU. Pan nad oes gan unigolyn basbort Wcráin dilys, gwneir ceisiadau drwy Ganolfan Gwneud Cais am Fisa. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael **fisa** a gellir defnyddio'r fisa hwn fel **tystiolaeth o'r hawl i weithio, astudio a hawlio budd-daliadau** yn y DU.

Pan fo stamp mynediad 6 mis wedi'i roi mewn pasbortau ar gyfer unigolion sy'n cael mynediad i'r DU drwy'r cynlluniau uchod, bydd angen i bob un ohonynt gyflwyno eu gwybodaeth fiometrig o fewn 6 mis ar ôl cyrraedd y DU er mwyn estyn eu harhosiad am hyd at 3 blynedd (36 mis) a chael trwydded breswylio fiometrig (BRP) fel tystiolaeth o'u statws mewnfudo.

**Sylwer:** O 6 Ebrill 2022 ymlaen, ni ellir defnyddio BRP i gadarnhau'r hawl i weithio yn y DU. Gellir profi'r hawl i weithio yn y DU ar-lein yn: https://www.gov.uk/prove-right-to-work. Gweler Atodiad C i gael rhagor o wybodaeth.

Gan fod y Cynlluniau a'r broses ymgeisio wedi bod yn esblygu ers 14 Chwefror 2022, bydd yna nifer o ddogfennau a fydd yn dderbyniol fel tystiolaeth i fodloni'r rheolau cymhwysedd sylfaenol i alluogi pobl i gyfranogi yn Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru. Efallai y bydd rhai ymgeiswyr llwyddiannus wedi cael fisa 90 diwrnod gyda 'Chaniatâd y Tu Allan i'r Rheolau' a 'Ffurflen ar gyfer Gosod y Fisa' (FAV) neu lythyr caniatâd i deithio a stamp mynediad 6 mis. Gellir defnyddio'r rhain fel tystiolaeth o gymhwysedd sylfaenol.

Yn ogystal, gellir defnyddio unrhyw rai o'r dogfennau eraill yn y rhestr 'tystiolaeth a ffefrir' yn rhan 4 o'r canllawiau hyn fel tystiolaeth o gymhwysedd sylfaenol.

**C10) Sut y gall gwladolion Wcráin sy'n cyrraedd Cymru ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd penodol i brosiect (e.e. cyrhaeddiad addysgol)?**

A10) Rydym yn cydnabod y gall fod yn anodd cael gafael ar dystiolaeth o gymhwysedd penodol i brosiect, megis cyrhaeddiad addysgol neu statws cyflogaeth.

Er bod y canllawiau ar gymhwysedd cyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ei gwneud yn glir y dylid darparu tystiolaeth o gymhwysedd yn y cam cofrestru, mae eisoes peth hyblygrwydd ar gael i'r buddiolwyr o ran amseriad hyn (gweler paragraffau 6 a 7 o'r canllawiau). Er enghraifft, gellid cofrestru cyfranogwr â'r gweithrediad ar yr amod y bydd y dystiolaeth yn cael ei darparu yn ddiweddarach a chyn i'r costau a'r dangosyddion gael eu cynnwys mewn hawliad i WEFO. Mae rhai risgiau ynghlwm wrth yr opsiwn hwn, ond gallai'r buddiolwr sefydlu system i drefnu i gael y dystiolaeth hon mewn cyfarfod diweddarach â'r cyfranogwr.

Hefyd, mae'r canllawiau eisoes yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle nad oes modd cael gafael ar dystiolaeth ac mae modd cyfiawnhau eithriad mewn amgylchiadau addas. Dylai buddiolwyr ddilyn y broses pedwar cam a chofnodi'r rhesymau pam nad

ydynt yn gallu cael tystiolaeth o (1) y rhestr a ffefrir, (2) atgyfeiriad gan drydydd parti neu (3) tystiolaeth amgen arall ac yna gallant gyfiawnhau eithriad.

**C11) Os nad oes gan wladolion Wcráin sy'n cyrraedd Cymru gyfeiriad sefydlog/parhaol, sut y gallant ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd daearyddol?**

A11) Rhaid bod unigolion yn byw, yn gweithio neu'n astudio yn y rhanbarth rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n ariannu'r prosiect, ni waeth ble mae'r gweithgaredd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn digwydd. Rhaid i gyfeiriad llawn yr unigolyn a, lle y bo'n gymwys, gyfeiriad ei weithle arferol neu'r lleoliad lle mae'n astudio fod wedi'u nodi yng nghofnodion y cyfranogwr. Serch hynny, nid oes angen cael prawf ategol annibynnol bod yr unigolyn yn byw, yn gweithio neu'n astudio yn rhanbarthau rhaglenni Cymru. Yn ogystal, pan fo amgylchiadau personol unigolyn yn golygu nad oes ganddo gyfeiriad cartref, neu'n golygu nad yw'n gallu darparu tystiolaeth o gyfeiriad cartref, bydd y cyngor yn Adran 25.1 o'r rheolau cymhwysedd ar gyfer Cymru yn berthnasol.

**C12) Beth mae'r Atodiad i'r Rheolau Mewnfudo: Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd (ATAS) yn ei olygu i wladolion Wcráin sy'n ceisio cymorth gan raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop?**

Mae'r amod ATAS yn golygu bod rhaid i rywun gael tystysgrif ATAS ddilys cyn dechrau astudiaeth neu ymchwil mewn unrhyw rai o'r pynciau neu'r meysydd ymchwil penodedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: Atodiad i'r Rheolau Mewnfudo: Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd (ATAS) – Rheolau Mewnfudo – Canllawiau – GOV.UK (www.gov.uk)

**C13) Os nad yw gwladolyn o Wcráin yn cyrraedd Cymru drwy Gynlluniau Fisa Llywodraeth y DU ar gyfer gwladolion Wcráin, sut y gall ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd sylfaenol i gael cymorth gan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop?**

A13) Yn rhan 4 o'r canllawiau ar gymhwysedd cyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop, rhestrir 'tystiolaeth a ffefrir' sy'n dderbyniol megis Cerdyn Cofrestru Cais (ARC) neu Lythyr Cydnabod Safonol (SAL) a roddir i geiswyr lloches/ffoaduriaid pan fyddant yn cyrraedd y DU.

**C14) Sut y gall gwladolyn o Wcráin sydd eisoes yn preswylio yn y DU ac sy'n ceisio estyn ei fisa ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd i gael cymorth gan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop?**

A14) Mae disgwyl i'r Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin gael ei lansio gan Lywodraeth y DU ar 3 Mai 2022. Bydd y cynllun hwn yn caniatáu i wladolion Wcráin gyda'u partneriaid a'u plant yn y DU, sydd â chaniatâd erbyn 18 Mawrth 2022, aros

yn y DU. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru unwaith y mae rhagor o fanylion ar gael.

**C15): A oes unrhyw eithriadau? Ni all y cyfranogwr ddarparu unrhyw un o'r dogfennau yn Rhan 4 o'r canllawiau hyn – a ddylem wrthod rhoi cymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop iddo?**

A15): Mae'n anochel y bydd nifer fach iawn o achosion lle na all cyfranogwr, am resymau da, ddarparu unrhyw un o'r dogfennau a restrir yn Rhan 4 o'r canllawiau hyn. Mae'r pedwar cam yn y canllawiau hyn yn nodi sut y gellir derbyn unigolion o'r fath o hyd fel rhai sy'n gymwys i gael cymorth.

Mewn mathau penodol o brosiectau, mae WEFO yn cydnabod ei bod yn annhebygol y bydd modd cael tystiolaeth gryfach (Camau 1-3) oherwydd y math o gyfranogwyr sy'n cael eu targedu. Yn fwy penodol, ar gyfer gweithrediadau sy'n targedu pobl 54 oed neu'n hŷn sy'n ceisio cyflogaeth am y tro cyntaf neu sydd am ailymuno â'r gweithlu, mae'n fwy tebygol na fyddant yn ceisio budd-daliadau diweithdra gan yr Adran Gwaith a Phensiynau nac yn gymwys iddynt. Er enghraifft, am fod eu hamgylchiadau ariannol personol yn golygu nad ydynt yn dibynnu ar incwm o fudd-daliadau fel grŵp cyfranogwyr iau, o bosibl oherwydd diswyddo neu ymddeol yn gynnar/yn rhannol. Yr yr un modd, gallai fod esboniadau eraill pam na fyddai tystiolaeth sy'n ymwneud â budd-daliadau ar gael e.e. heb gael eu hawlio oherwydd rhesymau, credoau neu werthoedd personol: heb fod yn gymwys i gael budd-daliadau oherwydd gwerth asedau; heb fod yn gymwys i gael budd-daliadau oherwydd amgylchiadau partner/teuluol ac ati.

Yn yr un modd, bydd prosiectau sy'n helpu pobl ifanc o dan 19 oed yn ei chael hi'n fwy anodd i gael dogfennaeth oherwydd mae'n bosibl na fydd rhai unigolion yn y grŵp hwn yn gymwys i gael budd-daliadau diweithdra'r llywodraeth megis Credyd Cynhwysol.

Yn y naill achos a'r llall, mae'n hanfodol o hyd fod y buddiolwr neu'r partner cyflawni yn cadw cofnodion o'r rhesymau pam na allai'r cyfranogwyr ddarparu tystiolaeth gan ddefnyddio Camau 1 i 3.

Cofiwch nad yw'r rhestr o dystiolaeth 'a ffefrir' yn rhestr hollgynhwysfawr o ddogfennau y dylai'r mwyafrif o gyfranogwyr allu eu darparu. Darperir y rhestr er mwyn cynorthwyo buddiolwyr a darparwyr am ei bod yn rhoi cysur iddynt y caiff y dogfennau eu derbyn yn ddiymdroi gan staff gwirio ac archwilio.

| |
|---|
| Y gofyniad craidd yw bod yn rhaid i lwybr archwilio'r prosiect gynnwys cyfiawnhad addas dros asesiad o b'un a yw cyfranogwr yn bodloni'r amodau mynediad ar gyfer cael grant gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. |

## RHAN 4 – TYSTIOLAETH A FFEFRIR I GADARNHAU BOD CYFRANOGWR YN GYMWYS I GAEL CYMORTH GAN GRONFA GYMDEITHASOL EWROP

Noder:

a) Nod WEFO yw cael **lefel resymol o sicrwydd – i'r graddau y bo'n bosibl** – fod y cyfranogwr yn gymwys i gael cymorth, heb osod baich sylweddol ar y cyfranogwr na gwrthod rhoi cymorth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

b) Mae'r eitemau yn y rhestr yn dderbyniol o ran **bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop** ond ni ellir dibynnu arnynt i fodloni'r gofynion ar gyfer Adrannau eraill y Llywodraeth/Asiantaethau eraill.

| Categori o gymhwysedd | Manylion/enghreifftiau | Y dystiolaeth a FFEFRIR |
|---|---|---|
| **Rheol sylfaenol i gymryd rhan yn rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru**<br><br>[yn gymwys i bob cyfranogwr] | Hawl gyfreithiol i **fyw yn y DU** yn ystod cyfnod cymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop.<br><br>Ar gyfer gweithrediadau sy'n helpu cyfranogwyr i gael gwaith neu ganlyniadau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith: yr hawl gyfreithiol i **weithio** yn un o aelod-wladwriaethau'r UE | **UN o'r eitemau canlynol:**<br>• **<u>Pasbort</u>** (o'r DU neu Aelod-wladwriaeth arall o'r UE) – dilys, nad yw wedi dirwyn i ben (gan y DU neu un o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE) (DS: Gall dinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir barhau i ddefnyddio eu pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol i brofi eu bod yn cael byw a gweithio yn y DU hyd at 31 Mehefin 2021. Fodd bynnag, o 1 Gorffennaf 2021 bydd angen cadarnhad o Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE **fel yr amlinellir yn y *Nodyn isod).**<br>• **<u>Pasbort</u>** (y tu allan i'r UE) – dilys, heb ddirwyn i ben, pasbort rhyngwladol Wcráin sydd wedi dirwyn i ben gyda stamp estyniad ffurfiol gan Lywodraeth Wcráin – naill ai wedi'i ardystio â statws 'caniatâd amhenodol i aros – parhau' (statws preswylydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | sefydlog) neu'n cynnwys trwyddedau gwaith neu breswylio neu stampiau fisa (nad ydynt wedi dod i ben neu na ddisgwylir iddynt ddod i ben yn ystod cyfnod disgwyliedig cymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop – gan gofio'r gofyniad ar wladolion Wcráin i geisio Trwydded Breswylio Fiometrig o fewn y 6 mis cyntaf ar ôl cyrraedd y DU) a bod pob amod cysylltiedig wedi'i fodloni.<br>• **Fisa 90 diwrnod** gyda 'Chaniatâd y Tu Allan i'r Rheolau' a 'Ffurflen ar gyfer Gosod y Fisa' (FAV) – sef dogfennau sy'n benodol i fynediad i'r DU drwy'r cynlluniau canlynol: Y Cynllun Teuluoedd o Wcráin a'r Cynllun Cartrefi i Wcráin.<br>• **Llythyr caniatâd i deithio a stamp mynediad 6 mis** sy'n dystiolaeth o'r hawl i weithio, astudio a hawlio budd-daliadau yn y DU – mae'r llythyr hwn yn benodol i fynediad i'r DU drwy'r cynlluniau canlynol: Y Cynllun Teuluoedd o Wcráin a'r Cynllun Cartrefi i Wcráin.<br>• **Tystiolaeth bod y cyfranogwr yn cael budd-daliadau/pensiwn y Wladwriaeth**: gohebiaeth gan DWP/Credyd Cynhwysol/y Ganolfan Byd Gwaith/y Gwasanaeth Pensiwn e.e. hawliad/penderfyniad newydd, llythyr penderfyniad ynghylch newid mewn amgylchiadau, datganiadau ac ati.<br>• **Tystysgrif geni/mabwysiadu** ar gyfer dinasyddion y DU a chan gynnwys dinasyddion o'r Ardal Deithio Gyffredin h.y. Jersey, Guernsey, Ynys Manaw ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | Iwerddon<br>• **<u>Tystysgrif priodas/partneriaeth sifil</u>** (os oes gan bartner hawl gyfreithiol i fyw yn y DU a bod modd dangos tystiolaeth o hyn). O 1 Ebrill 2021 ni fydd WEFO bellach yn derbyn y rhain fel tystiolaeth a ffefrir, oherwydd gofynion Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).<br>• **<u>Tystiolaeth bod y cyfranogwr yn cael ei gyflogi yn y DU</u>** (e.e. slip cyflog diweddar; contract cyflogaeth; neu ohebiaeth gan CThEM sy'n cynnwys enw'r cyflogwr).<br>• **<u>Rhif Yswiriant Gwladol:</u>** pan gaiff ei gadarnhau drwy edrych ar y cerdyn plastig/os yw'r cerdyn plastig wedi'i ddisodli, y ddogfen swyddogol a dderbyniwyd i gadarnhau'r rhif yswiriant gwladol; Gohebiaeth gan CThEM; Gohebiaeth gan DWP/y Ganolfan Byd Gwaith/Credyd Cynhwysol/y Gwasanaeth Pensiwn; neu Lythyr/contract/slip cyflog gan y cyflogwr. Noder: os yw'r cyfranogwr wedi colli ei rif yswiriant gwladol mae gan CThEM linell gymorth Yswiriant Gwladol er mwyn helpu i gadarnhau'r rhif neu atgoffa'r cyfranogwr ohono.<br>• <u>Dogfennau sy'n cynnwys **'Rhif Dysgwr Unigryw'** unigolyn</u> – pan fo'r ddogfen hefyd yn dangos enw llawn, cyfeiriad llawn **a** Rhif Yswiriant Gwladol y cyfranogwr yn glir.<br><br>• **<u>Gohebiaeth yn cadarnhau derbyn neu ddyfarnu</u>** Grant Dysgu Llywodraeth Cymru AB; |

| | | |
|---|---|---|
| | | Lwfans Cynhaliaeth Addysg; neu fenthyciadau/grantiau eraill a ddarparwyd drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru/y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr .<br><br>• **Cerdyn Dinesydd y DU -** er mwyn i rywun gael cerdyn dinesydd mae'n rhaid iddo fod yn preswylio yn y DU a darparu prawf o bwy ydyw megis tystysgrif geni, pasbort, trwydded yrru cerdyn â llun ac ati sydd wedi'i gydlofnodi/chydlofnodi gan ganolwr a ganiateir, neu os nad oes prawf adnabod ar gael mae'n rhaid i'r cais gael ei ddilysu gan ganolwr gan ddefnyddio cofnodion swyddogol megis meddyg teulu, ysgol neu weithle. Noder: dim ond fel tystiolaeth o hawl gyfreithiol unigolyn i fyw yn y DU y gellir defnyddio Cerdyn Dinesydd y DU. Nid yw hyn yn ddigon i ddangos bod ganddo hawl i weithio yn y DU.<br><br>• **Cerdyn adnabod cenedlaethol** a roddwyd gan un o aelod-wladwriaethau'r AEE neu'r Swistir sy'n disgrifio'r deiliad fel **gwladolyn** neu **ddinesydd** y wlad berthnasol yn yr AEE neu'r Swistir ac y gellir eu defnyddio i brofi'r hawl i fyw a gweithio yn y DU hyd at 31 Mehefin 2021. O 1 Gorffennaf 2021 bydd angen cadarnhad o Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE **fel yr amlinellir yn y *Nodyn isod.** Os disgrifir y deiliad fel preswylydd **ni fydd** hyn yn ddigon i ddangos hawl i weithio yn y DU.<br>• **Tystiolaeth o gofrestru mewn** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **ysgol neu goleg** (dogfennaeth neu atgyfeiriad/cyflwyniad gan yr ysgol neu'r coleg) ar gyfer disgyblion ysgol a myfyrwyr yn y chweched dosbarth/colegau AB os na roddwyd rhifau Yswiriant Gwladol iddynt eto.<br><br>• **Trwydded Breswylio Fiometrig (BRP) Nad yw wedi dod i ben** Trwyddedau Preswylio Biometrig – a roddir i fudwyr ac sy'n rhoi caniatâd iddynt aros yn y DU am fwy na chwe mis (sydd wedi disodli fisa'r DU). Dim ond o ran statws mewnfudo'r deiliad unigol e.e. caniatâd parhaol neu gyfyngedig y mae'n ddilys. Gellir ei defnyddio i brofi hawl yr unigolyn i fyw yn y DU. Noder: O 6 Ebrill 2022 ymlaen, ni ellir defnyddio Trwydded Breswylio Fiometrig i gadarnhau hawl i weithio yn y DU. Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu system wirio ar-lein ar gyfer 'hawl i weithio' lle mae cyfranogwr yn cael Trwydded Breswylio Fiometrig (BRP), Cerdyn Preswylio Biometrig (BRC) a Chynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE. Gweler Atodiad C am fanylion pellach o ran sut y gellir defnyddio'r system hon i ddangos tystiolaeth o hawl cyfranogwyr i weithio.<br><br>• **Cardiau Preswylio Biometrig** – (sy'n debyg i Drwyddedau Preswylio Biometrig) Efallai y bydd rhai gwladolion nad ydynt yn perthyn i'r AEE yn cael Cerdyn Preswylio gan y Swyddfa Gartref yn lle fisa, sy'n cadarnhau hawl yr unigolyn i aros, gweithio neu |

| | | |
|---|---|---|
| | | astudio yn y DU - mae’r cardiau hyn yn dderbyniol. Fel y nodwyd uchod, gweler Atodiad C am fanylion pellach am sut y gellir defnyddio system ar-lein y Swyddfa Gartref i ddangos tystiolaeth o hawl cyfranogwyr i weithio.<br><br>* **Noder:** Bydd angen i ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir, sy'n byw yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020, **wneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog yr UE i barhau i fyw yn y DU. Y dyddiad cau ar gyfer hyn yw 30 Mehefin 2021.**<br><br>Bydd y gofyniad hwn hefyd yn gymwys pan fo preswylydd yn gymwys fel aelod o deulu person cymwys o Ogledd Iwerddon. Noder nad yw'r gofyniad hwn, yn y rhan fwyaf o achosion, yn berthnasol i ddinasyddion Iwerddon.<br><br>Felly, ar ôl 1 Ionawr 2021, gall cyfranogwyr yr UE hefyd gadarnhau eu cynllun/statws preswyliwr yr UE i gadarnhau eu bod yn gymwys i gael cymorth ESF. Bydd hyn ond yn berthnasol i gyfranogwyr yr UE a recriwtiwyd i weithrediadau ESF o 1 Ionawr 2021 ac nid oes angen ymarfer ôl-weithredol ar gyfer cyfranogwyr presennol ESF.<br><br>Gweler y cyflwyniad ar Gynllun Preswylio'n Sefydlog y DU am ragor o fanylion (Pwyswch Ctrl + Clic i weld y cyflwyniad neu ewch i https://www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families a bydd yn rhoi |

| | | |
|---|---|---|
| | | amlinelliad o'r dystiolaeth y gallai fod yn ofynnol i fuddiolwyr ei chasglu i benderfynu a yw cyfranogwyr yn gymwys, h.y. prawf digidol o statws sefydlog neu gyn-sefydlog drwy'r gwasanaeth ar-lein: gov.uk/view-prove-immigration-status<br><br>• **Llythyr gan y Swyddfa Gartref, Adran Fisâu a Mewnfudo'r DU (a elwir yn ffurfiol yn (a) Asiantaeth Ffiniau'r DU o fis Ebrill 2008, (b) Yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo o fis Ebrill 2007 ac (c) Cyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd y DU cyn 2007)** gan roi ' caniatâd amhenodol i aros ' (statws preswylydd sefydlog). Fel y nodwyd uchod, gweler Atodiad C am fanylion pellach am sut y gellir defnyddio system ar-lein y Swyddfa Gartref i ddangos tystiolaeth o hawl cyfranogwyr i weithio.<br><br>• **Llythyr gan Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd y DU** yn rhoi 'caniatâd amhenodol i aros' (statws preswylydd sefydlog).<br><br>• **Cerdyn Cofrestru Cais (ARC)** sy'n cydnabod cais am loches yn y DU **cyn i** loches gael ei roi (yr hawl i fod yn y DU tra bod y cais yn cael ei ystyried yn unig). Mae rhai Cardiau Cofrestru Cais yn caniatáu i geiswyr lloches weithio yn y DU.<br>• **Llythyr Cydnabod Safonol (SAL) (nad yw wedi dod i ben)** sy'n cydnabod cais am loches yn y DU lle nad yw'n bosibl rhoi |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cerdyn Cofrestru Cais o fewn tri diwrnod (yr hawl i fod yn y DU tra bod y cais yn cael ei ystyried yn unig).<br>• **Llythyr ASL4264** (tystiolaeth bod ceisiwr lloches wedi cael caniatâd i weithio yn y DU) (yr hawl i fod a gweithio yn y DU).<br>• **Dogfen statws mewnfudo (ISD)** - fe'i rhoddir i fudwyr nad ydynt yn dod o'r AEE sydd wedi cael caniatâd i aros yn y DU os nad oes gan yr unigolyn ei basbort cenedlaethol. Bydd hyn yn dangos bod caniatâd yn ôl disgresiwn, diogelwch dyngarol neu statws ffoadur wedi'i roi i'r deiliad. Noder: mae Trwyddedau Preswylio Biometrig wedi disodli Dogfennau Statws Mewnfudo (ISD) ond os yw'r ISD yn gyfredol o hyd gellir ei defnyddio i ddangos bod gan y deiliad yr hawl i weithio yn y DU pan y'i cyflwynir gyda dogfen swyddogol a roddwyd gan un o asiantaethau Llywodraeth y DU neu gyflogwr blaenorol yr unigolyn os yw'r ddogfen yn nodi enw a rhif Yswiriant Gwladol yr unigolyn.<br>• **Ffurflen NASS35 -** dogfen sy'n nodi nad oes gan y deiliad yr hawl i gael cymorth lloches mwyach am ei fod wedi cael penderfyniad cadarnhaol ar ei gais am loches. Fe'i defnyddir i ddangos ei fod yn gymwys i gael budd-daliadau lles a bod ganddo'r hawl i weithio.<br>• **Trwydded Yrru lawn neu dros dro y DU –** Nodyn: dim ond fel tystiolaeth o hawl gyfreithiol unigolyn i fyw yn y DU y gellir defnyddio trwydded yrru. Nid yw hyn yn ddigon i ddangos bod |

| | | |
|---|---|---|
| | | ganddo hawl i weithio yn y DU. |
| **Cyrhaeddiad addysgol** | Cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i unigolion sydd wedi *ennill cymhwyster/cymwysterau penodol* neu lefel benodol o addysg (a/neu bwnc penodol) | **UN o'r eitemau canlynol:**<br>• **Tystysgrif cymwysterau** a roddwyd i unigolyn.<br>• **Cofnodion y sefydliad academaidd/corff cymhwyso/neu'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (rhan o'r Asiantaeth Cyllido Sgiliau)**. Os na fyddai mynediad uniongyrchol o'r fath ar gael i archwilwyr/staff WEFO yn y dyfodol, yna rhaid i'r prosiect gadw copïau o'r cofnodion a arolygwyd.<br>• Prosiect neu'r cyfranogwr i ofyn am **gadarnhad ysgrifenedig o gymwysterau** gan y sefydliad academaidd/corff cymhwyso.<br>• **Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST)** – Gellir ei ddefnyddio os yw'r buddiolwr/partner cyflawni yn fodlon bod y cyfranogwr yn bodloni meini prawf cymhwysedd y prosiect ond nad yw tystysgrif y cyfranogwr ar gael i ddangos y lefel ofynnol o gyrhaeddiad. |
| | Cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer yr unigolion hynny sy'n astudio'n llawn amser | **UN o'r eitemau canlynol:**<br>• **Tystiolaeth o gofrestru mewn ysgol, coleg, prifysgol neu gyda darparwr dysgu** (dogfennaeth neu atgyfeiriad/cyflwyniad gan y sefydliad/darparwr).<br>• **AB/AU - Gohebiaeth i gadarnhau bod grantiau/cymorth ariannol wedi'u derbyn/wedi'i dderbyn** e.e. Cyllid Myfyrwyr Cymru; yn cael Lwfans Cynhaliaeth Addysg; penderfyniad ynghylch dyfarnu Lwfans Cynhaliaeth Addysg; |

| | | |
|---|---|---|
| | | Grant Dysgu Llywodraeth Cymru AB |
| | Cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop dim ond i unigolion heb unrhyw gymwysterau (neu gymorth dim ond ar gyfer unigolion â chymwysterau nad ydynt yn uwch na lefel benodol). | Nid oes angen unrhyw dystiolaeth annibynnol – mae **datganiad ysgrifenedig gan y cyfranogwr** yn dderbyniol (gweler Rhan 3, Cwestiwn Cyffredin 4). |
| **Statws cyflogaeth** | Cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i bobl sy'n gweithio (sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig neu sydd 'wedi'u tangyflogi') fel y'i pennir gan Gredyd Cynhwysol<br><br>**a/neu**<br><br>Rhaid iddynt fod yn gweithio mwy na/llai na nifer benodol o oriau bob wythnos.<br><br>**a/neu**<br><br>Rhaid bod ganddynt fath penodol o gontract cyflogaeth (parhaol, tymor sefydlog, dim oriau, dros dro ac ati). | Pobl sy'n gweithio a/neu nifer yr oriau a weithir<br><br>**UN o'r eitemau canlynol:**<br>• Slip cyflog diweddar.<br>• Contract cyflogaeth.<br>• Gohebiaeth/cadarnhad gan y cyflogwr.<br>• Os yw'n gymwys, copi o'r ymgynghoriad neu'r hysbysiad diswyddo (hysbysiad cyffredinol i grŵp o staff neu hysbysiadau unigol).<br>• Gohebiaeth gan CThEM, gan gynnwys Credydau Treth sy'n cadarnhau'r cyflogwr, y cyflog ac, os oes angen, nifer yr oriau wedi'u contractio a weithir.<br>• DWP/Credyd Cynhwysol/y Ganolfan Byd Gwaith ynghyd â gohebiaeth sy'n cadarnhau'r cyflogwr, y cyflog ac, os oes angen, nifer yr oriau wedi'u contractio a weithir.<br>• Os yw cyfranogwyr yn cael Credyd Cynhwysol copi o 'My Work Plan' neu ohebiaeth arall sy'n rhoi tystiolaeth briodol o gymhwysedd/statws cyfredol y cyfranogwr. |

| | | |
|---|---|---|
| | | <u>Hunangyflogaeth</u><br><br>**UN o'r eitemau canlynol:**<br>• Datganiad treth hunanasesu 'SA302' CThEM a gyflwynwyd, gyda chydnabyddiaeth ei fod wedi'i dderbyn. Gellir gofyn i CThEM am ffurflenni SA302.<br>• Lle nad yw'r ffurflen SA302 gyntaf wedi'i chyflwyno eto, dogfennaeth arall i ddangos bod y gweithgaredd masnach/busnes wedi'i gofrestru â CThEM at ddibenion treth ac yswiriant gwladol.<br>• Cofnodion i ddangos bod Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 wedi'u talu mewn gwirionedd.<br>• Cofnodion busnes yn enw'r busnes sy'n dangos tystiolaeth bod busnes wedi'i sefydlu ac yn weithredol - prydles ar eiddo; prynu/prydlesu cyfarpar; deunyddiau cyhoeddusrwydd; anfonebau busnes; gohebiaeth â'r Awdurdod Lleol; gohebiaeth gyfreithiol, cyfrif banc busnes yn enw'r busnes a ddefnyddiwyd ar gyfer cymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop.<br>• Os y'i cofrestrwyd yn gwmni cyfyngedig: Cofnodion Tŷ'r Cwmnïau/statws Cyfarwyddwr Cwmni.<br>• Llythyr cadarnhad gan gyfrifydd.<br>• Cadarnhad cofrestru TAW gan CThEM.<br>• Gwefan weithredol yn enw'r busnes a ddefnyddiwyd ar gyfer cymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop. |
| | Cymorth i bobl nad ydynt yn gweithio/pobl anabl/economaidd anweithgar/'NEET'. | **UN o'r eitemau canlynol:**<br>• Llythyr yn rhoi gwybod am benderfyniad ynghylch budd-daliadau gan DWP/Credyd Cynhwysol/y Ganolfan Byd Gwaith - dyfarniad/penderfyniad mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | | perthynas â hawliad newydd neu llythyr penderfyniad ynghylch newid mewn amgylchiadau. Gohebiaeth arall sy'n nodi bod DWP/y Ganolfan Byd Gwaith yn ystyried bod y cyfranogwr yn ddi-waith<br><br>Noder: nid yw WEFO yn disgwyl i gyfranogwyr ddarparu tystiolaeth i ddangos eu bod yn ddi-waith yn yr hirdymor yn benodol neu'n ddi-waith am gyfnod estynedig o amser. Byddai'r unrhyw dystiolaeth o gymhwysedd y byddai angen ei darparu yn ymwneud â statws cyflogaeth cyffredinol y cyfranogwr. Gall cyfranogwyr hunanddatgan eu cyfnod o ddiweithdra drwy roi cadarnhad ysgrifenedig penodol, wedi'i lofnodi a'i ddyddio, eu bod yn bodloni'r meini prawf.<br><br>• Os yw cyfranogwyr yn cael Credyd Cynhwysol, copi o 'My Work Plan' sy'n rhoi tystiolaeth briodol o gymhwysedd/statws cyflogaeth cyfredol y cyfranogwr.<br>• Atgyfeiriad wedi'i lofnodi gan DWP/y Ganolfan Byd Gwaith neu Gyrfa Cymru. |
| | Cymorth i unigolion sy'n destun ymgynghoriad neu hysbysiad diswyddo. | **UN o'r eitemau canlynol:**<br>• Rhybudd diswyddo gan gyflogwr<br>• Ymgynghori gan y cyflogwr: dogfennaeth gan gyflogwr neu gynrychiolydd (undeb llafur neu gynrychiolydd cyflogeion arall) |
| **Cyflogwr/sector cyflogaeth** | Cymorth dim ond i'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan gyflogwyr penodol (lleoliad, y math o fusnes) neu sector | **UN o'r eitemau canlynol:**<br>• Y slip cyflog diweddaraf.<br>• Y P60 blynyddol diweddaraf.<br>• Y datganiad buddion heblaw cyflogau diweddaraf. |

| | | |
|---|---|---|
| | (sector cyhoeddus; gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; y sector preifat; y trydydd sector ac ati.). | • Contract cyflogaeth.<br>• Gohebiaeth gan y cyflogwr i'r cyflogai. |
| **Oedran** | Oedran lleiaf; oedran mwyaf; ystodau oedran. | **UN o'r eitemau canlynol:**<br>• Tystysgrif geni<br>• Trwydded yrru lawn neu dros dro<br>• Pasbort - sydd wedi dod i ben neu nad yw wedi dod i ben.<br>• Cerdyn Adnabod Cenedlaethol (UE)<br>• Cerdyn Dinesydd y DU<br>• Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd<br>• Cerdyn Cofrestru Cais (ARC)/Llythyr Cydnabod Safonol (SAL) (Ceiswyr lloches – gweler y rheol sylfaenol uchod)<br>• Trwydded Breswylio Fiometrig<br>• Tystysgrif arfau tanio/Trwydded drylliau<br>• Cerdyn Adnabod Gwasanaeth Milwrol (Cenedlaethol/a roddwyd gan y Llywodraeth)<br>• Cerdyn Pleidleisio Gogledd Iwerddon.<br>• Contract cyflogaeth/slip cyflog (os nodir dyddiad geni).<br>• Datganiad pensiwn (os nodir dyddiad geni).<br>• Tystiolaeth bod y cyfranogwr yn cael budd-daliadau gan y wladwriaeth sy'n gysylltiedig ag oedran neu grantiau/benthyciadau gan y llywodraeth.<br>• Gohebiaeth gan y GIG os bydd yn cynnwys 'Dyddiad Geni' yr unigolyn a **dim ond** os yw'r unigolyn yn fodlon rhannu'r ohebiaeth hon.<br>• Llythyr/cadarnhad gan sefydliad addysgol (os yw'n gymwys).<br>• Gohebiaeth yn cadarnhau bod Grant Dysgu Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | | AB wedi cael ei dderbyn neu ei ddyfarnu (rhaid i'r cyfranogwr fod yn 19 oed o leiaf ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd).<br>• Gohebiaeth yn cadarnhau bod Lwfans Cynhaliaeth Addysg wedi cael ei dderbyn neu ei ddyfarnu (mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer pobl ifanc sydd rhwng 16 a 18 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd). |

Noder: Mae WEFO yn croesawu awgrymiadau ar gyfer cynnwys 'tystiolaeth amgen' **cyffredin/cyffredinol** i fodloni meini prawf cymhwysedd yn enwedig pan fo nifer o gyfranogwyr/gweithrediadau/prosiectau yn cael anhawster. Bydd WEFO yn rhoi sylw dyledus i b'un a ellir ychwanegu'r rhain at y rhestr o dystiolaeth a ffefrir.

## Atodiad A

### Cyflwyniad

Mae'r Atodiad hwn yn rhoi canllawiau ar y ffordd y penderfynir p'un a yw unigolyn yn gymwys i gael cymorth gan brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n helpu pobl ddi-waith neu sydd y tu allan i'r farchnad lafur yn gyfan gwbl (economaidd anweithgar) pan fydd angen tystiolaeth o statws cyflogaeth. Ariennir y prosiectau hŷn gan Flaenoriaeth 1 Cronfa Gymdeithasol Ewrop (25 oed neu'n hŷn) neu Flaenoriaeth 3 (16 i 24 oed).

Hefyd, yn sgil cyflwyno budd-dal newydd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, Credyd Cynhwysol, nid oes modd cadarnhau statws cyflogaeth unigolyn mwyach drwy edrych ar ddogfennau Credyd Cynhwysol. Yn wir, gellir talu Credyd Cynhwysol i bobl mewn cyflogaeth yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn gweithio.

### Prif egwyddorion

Lle nad yw achos penodol wedi'i gwmpasu yn y canllawiau hyn, dylai buddiolwyr gysylltu â'u Swyddog Datblygu Prosiect a bydd WEFO yn rhoi cyngor ar sail achos unigol. Wrth wneud hynny, bydd WEFO yn cael ei llywio gan yr egwyddorion canlynol:

**EGWYDDOR 1:** Pennir cymhwysedd o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop gan amgylchiadau personol gwirioneddol yr unigolyn ar yr adeg y bydd yn dechrau cael cymorth gan y prosiect, gan ddefnyddio diffiniadau sefydledig y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o 'Di-waith' ac 'Economaidd Anweithgar'.

**EGWYDDOR 2:** Ni phennir cymhwysedd o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau y mae unigolyn yn eu cael, os o gwbl, na'r amodau sy'n gysylltiedig â thalu'r budd-daliadau hynny. Mae Rhaglenni Gweithredu Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn canolbwyntio ar gyflogaeth a gweithgarwch economaidd, ni waeth beth fo hawl unigolyn i gael budd-daliadau diweithdra. Gall cynlluniau budd-daliadau diweithdra Llywodraeth y DU newid ond mae cymhwysedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn parhau i ganolbwyntio ar y diffiniadau o anweithgarwch economaidd a diweithdra a ddeellir yn rhyngwladol ac ar fynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflogaeth. Mae'r egwyddor hon yn sicrhau na fydd y rhai y mae angen cymorth arnynt i fod yn barod i weithio neu fod yn agosach at weithio eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu hawl i gael budd-daliadau, amodau budd-daliadau neu sancsiynau, neu p'un a ydynt yn dewis bod yn rhan o system fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau.

### Diffiniad byr o 'Di-waith'

- Heb waith, AC

- Ar gael i weithio yn y pythefnos nesaf, AC
- Wrthi'n chwilio am waith o fewn y 4 wythnos diwethaf.

Cofiwch, nid yw rhagolygon yr unigolyn o ran dod o hyd i waith, argaeledd gwaith addas a/neu'r math o waith neu lefel o gyflog a ffefrir ganddo yn ystyriaeth wrth edrych ar y diffiniad hwn.

**Diffiniad byr o 'Economaidd Anweithgar'**

- Ddim yn rhan o'r gweithlu.
- Ddim yn chwilio am waith a/ neu ddim ar gael am waith .
- Hynny yw, nid 'cyflogedig' na 'di-waith'
- Nid yw pobl sydd mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser yn 'economaidd anweithgar' at ddibenion cymhwysedd o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

**Gofyn am brawf o Gredyd Cynhwysol**

<u>Pryd, a pham, y dylid gofyn am brawf o fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau?</u>

Os yw unigolyn yn byw mewn ardal lle nad yw Credyd Cynhwysol (gwasanaeth llawn) wedi cael ei gyflwyno eto:

- Mae dogfennaeth sy'n dangos bod unigolyn yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dderbyniol fel prawf o ddiweithdra.
- Mae dogfennaeth sy'n dangos bod unigolyn yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dderbyniol fel prawf o anweithgarwch economaidd.

Lle mae'r unigolyn yn hawlio Credyd Cynhwysol, dylid gofyn am brawf o hyn ym mhob achos – gweler yr adran isod ar drefniadau ymarferol. Gellir dilyn gweithdrefn arall os yw'r Ganolfan Byd Gwaith/Adran Gwaith a Phensiynau yn un o fuddiolwyr neu bartneriaid cyflawni Cronfa Gymdeithasol Ewrop – gweler isod.

Er nad yw tystiolaeth o Gredyd Cynhwysol yn rhoi prawf o statws cyflogaeth – telir Credyd Cynhwysol i bobl sy'n gweithio ac am gymorth nad yw'n ymwneud â gwaith megis Budd-dal Tai – mae'n rhoi rhywfaint o sicrwydd gan fod unigolyn nad yw mewn gwaith yn fwy tebygol na pheidio o gael Credyd Cynhwysol, Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Cofiwch fod rhai prosiectau ond ar gael i'r rhai sy'n profi diweithdra **hirdymor**.

- Os yw'r unigolyn o dan 25 oed - mae hyn yn golygu mwy na **6 mis** o <u>ddiweithdra parhaus</u>.
- Os yw'r unigolyn dros 24 oed – mae hyn yn golygu mwy na **12 mis** o <u>ddiweithdra parhaus</u>.

Gall cyfranogwyr hunanddatgan faint o amser y maent wedi bod yn ddi-waith a dylai hyn gael ei dderbyn yn absenoldeb unrhyw arwyddion i'r gwrthwyneb.

Ni fydd tystiolaeth o Gredyd Cynhwysol bob amser yn rhoi tystiolaeth glir o b'un a yw unigolyn yn economaidd anweithgar neu'n ddi-waith. Dylid edrych ar y 'Dyddlyfr' ar-lein er mwyn chwilio am arwyddion e.e. a ydynt yn chwilio am waith, pa fath o weithgareddau y maent wedi cytuno â Hyfforddwr Gwaith o'r Ganolfan Byd Gwaith i ymgymryd â hwy? Lle nad yw'r Dyddlyfr yn rhoi digon o wybodaeth, gellir derbyn disgrifiad y cyfranogwr o'i statws cyflogaeth (economaidd anweithgar neu ddi-waith).

Trefniadau ymarferol

Yn sgil cyflwyno 'Gwasanaeth Llawn' Credyd Cynhwysol yng Nghymru mae'r broses hawlio yn gwbl ddigidol. Ni chaiff llythyrau dyfarnu budd-daliadau na gohebiaeth gysylltiedig eu postio at yr hawlydd.

Gall hawlwyr Credyd Cynhwysol ddefnyddio cyfrif ar-lein ar y we ar unrhyw adeg a gweld eu datganiadau a'u hysbysiadau ynglŷn â budd-daliadau. Gall y cleient hefyd weld 'Dyddlyfr' o ryngweithio â'u Hyfforddwr Gwaith yn y Ganolfan Byd Gwaith.

Y dull gweithredu a argymhellir yw gofyn i gyfranogwyr fewngofnodi â'u cyfrif yn ystod y drafodaeth i asesu cymhwysedd o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac argraffu'r sgriniau perthnasol.

Mae'r cyfrif ar-lein hefyd yn cynnig opsiwn i argraffu gwybodaeth. Wrth argraffu'r 'Dyddlyfr' bydd y cofnod argraffedig yn cynnwys stamp dyddiad ac amser y gellir ei ddefnyddio i'w gyfateb i gofnodion eraill yn ffeil Cronfa Gymdeithasol Ewrop y cyfranogwr ar adeg cofrestru.

Cofnodion digidol yw'r 'Dyddlyfr' a'r datganiad budd-daliadau ar-lein ac nid ydynt wedi'u cynllunio i'w hargraffu o ran fformatio. Serch hynny, mae modd eu hargraffu ac os bydd angen i fuddiolwr gael copïau o'r wybodaeth hon, mae'n rhaid cymryd gofal wrth ymdrin â'r math hwn o ddata personol sensitif ac atal twyll. Bydd y datganiad budd-daliadau yn dangos enw'r cyfranogwr, ond nid felly'r Dyddlyfr. Gellir golygu gwybodaeth amherthnasol.

Nid yw cyfrif ar-lein Credyd Cynhwysol yn dangos rhifau Yswiriant Gwladol.

**Trefn y Farchnad Lafur ac Amodoldeb Credyd Cynhwysol**

Fel yr esbonnir yn y prif egwyddorion uchod, nid dosbarthiadau, amodau na sancsiynau Credyd Cynhwysol a bennir gan y Ganolfan Byd Gwaith/Adran Gwaith a Phensiynau yw'r brif ystyriaeth at ddibenion cymhwysedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Sut bynnag, nid yw hawlwyr Credyd Cynhwysol yn ymwybodol o'r dosbarthiadau fel arfer a gallant newid dros amser.

**Ni** ddylid gofyn i ddarpar gyfranogwyr ofyn i'w Hyfforddwr Gwaith yn y Ganolfan Byd Gwaith am wybodaeth am Drefn y Farchnad Lafur neu Amodau Credyd Cynhwysol.

Mae hyn yn unol â safbwynt sefydledig WEFO, wrth geisio tystiolaeth o gymhwysedd, mai'r bwriad yw ond gweld dogfennau sydd ar gael yn hawdd i'r cyfranogwr. Ni ddylid gofyn i'r cyfranogwr fuddsoddi amser nac ymdrech ychwanegol na mynd i gostau ychwanegol wrth geisio cael rhywbeth nad oes ganddo ar hyn o bryd ac na fyddai disgwyl iddo fod yn ei feddiant, megis dosbarthiadau trefn Credyd Cynhwysol.

**Lle mae'r Ganolfan Byd Gwaith/Adran Gwaith a Phensiynau yn un o fuddiolwyr neu'n bartner cyflawni o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac yn ymwybodol o Drefniadau'r Farchnad Lafur ac Amodoldeb Credyd Cynhwysol**

Gall swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau edrych ar eu cofnodion presennol i gadarnhau a yw'r unigolyn yn cael Credyd Cynhwysol. Gan y bydd y Ganolfan Byd Gwaith/Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn ymwybodol wedyn o drefn Credyd Cynhwysol yr unigolyn, mae'n rhaid bodloni ei hun bod hyn yn gyson â'r sefyllfa a ddisgrifir gan y cyfranogwr ar adeg cofrestru ag un o brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Nid gwiriad ychwanegol ydyw, mae ond yn golygu cymhwyso pwynt 19 o'r ddogfen gyfarwyddyd hon, sef yr angen i fod yn effro ac ystyried unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn anghyson.

Mae'n rhaid dilyn pob cyfraith diogelu data sy'n gymwys.

**Lle mae'r buddiolwr neu'r partner cyflawni wedi datblygu cydberthynas â'r Ganolfan Byd Gwaith leol er mwyn darparu gwybodaeth Credyd Cynhwysol a/neu wybodaeth am statws cyflogaeth unigolyn.**

Gall buddiolwyr a phartneriaid cyflawni barhau i ddilyn gweithdrefnau sefydledig. Y wybodaeth fwyaf defnyddiol fyddai i'r Ganolfan Byd Gwaith hysbysu'r buddiolwr p'un a yw'r unigolyn yn ddi-waith (wrthi'n chwilio am waith) neu'n economaidd anweithgar (ddim yn y farchnad lafur). Lle nad oes modd darparu'r wybodaeth hon, cadarnhad bod unigolyn yn cael Credyd Cynhwysol yw'r wybodaeth fwyaf defnyddiol. Nid yw WEFO yn gofyn am gadarnhad o drefn na dosbarthiadau Credyd Cynhwysol ond lle rhoddir y wybodaeth hon i fuddiolwr/partner cyflawni bydd angen iddo fod yn effro ac ystyried unrhyw anghysondebau ymddangosiadol yn unol â phwynt 19 o'r canllawiau hyn.

**Pa anghysondebau posibl a allai fodoli rhwng trefniadau/amodau Credyd Cynhwysol a statws cyflogaeth cyfranogwr o ran cymhwysedd o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop?**

| Trefn Credyd Cynhwysol | Disgrifiad | Yr hyn i'w ystyried ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
|---|---|---|
| Chwilio am waith | 18 oed neu'n hŷn, ddim yn gweithio nac mewn addysg na hyfforddiant llawn amser, neu | Os nad yw'n gweithio nac mewn addysg/hyfforddiant llawn amser, mae'n debyg i |

| | | |
|---|---|---|
| | gydag enillion isel iawn. Mae'n ofynnol i'r hawlydd gymryd camau i sicrhau gwaith – neu ragor o waith / gwaith sy'n talu mwy o gyflog. Mae'r Hyfforddwr Gwaith yn ei helpu i gynllunio ei weithgarwch ar gyfer chwilio am waith a pharatoi. | gyfranogwr **di-waith** o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae problem bosibl os bydd cyfranogwr yn dweud ei fod yn economaidd anweithgar.<br><br>Os yw'n gweithio ond gydag enillion isel iawn, mae'r cyfranogwr hwn yn **gyflogedig**. |
| Gweithio (gyda gofynion) NEU Weithio (heb ofynion) | *(yn gryno, mae'r unigolion yn gweithio).* | Mae problem bosibl os bydd cyfranogwr yn dweud ei fod yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. |
| Dim gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith | Ni ddisgwylir iddo weithio ar hyn o bryd. Mae cyfrifoldeb iechyd neu ofal yn atal hawlydd rhag gweithio neu baratoi ar gyfer gwaith. | Mae'n debyg i gyfranogwr o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n **economaidd anweithgar**. Mae problem bosibl os bydd cyfranogwr yn dweud ei fod yn ddi-waith (chwilio am waith). |
| Cynllunio ar gyfer gwaith | Disgwylir iddo weithio yn y dyfodol.<br><br>Unig riant / prif ofalwr plentyn blwydd oed.<br><br>Mae'n ofynnol i'r hawlydd fynd i gyfweliadau o bryd i'w gilydd er mwyn cynllunio ar gyfer dychwelyd i weithio. | Mae'n debyg i gyfranogwr o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n **economaidd anweithgar**. Mae problem bosibl os bydd cyfranogwr yn dweud ei fod yn ddi-waith (chwilio am waith). |
| Paratoi ar gyfer gwaith | Disgwylir iddo ddechrau paratoi ar gyfer y dyfodol hyd yn oed os yw'r gallu i weithio wedi'i gyfyngu ar y pryd neu blentyn 2 oed. Disgwylir i'r hawlydd gymryd camau rhesymol i baratoi i weithio, gan gynnwys Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith. | Mae'n debyg i gyfranogwr o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n **economaidd anweithgar** (ddim gallu i weithio ar hyn o bryd) neu'n **ddi-waith** (rhywfaint o allu i weithio ar hyn o bryd). |

Lle mae statws cyflogaeth o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a threfn Credyd Cynhwysol yn ymddangos yn anghyson, dylai'r buddiolwr/partner cyflawni ganfod y rhesymau posibl dros y gwahaniaethau ac, os nad oes unrhyw bryderon (gweler pwynt 19), dylai gael ei arwain gan ddisgrifiad y cyfranogwr o'i wir statws cyflogaeth yn hytrach na threfniadau Credyd Cynhwysol.

Lle mae gweithrediad o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn cefnogi pobl economaidd anweithgar a phobl ddi-waith, nid oes unrhyw gymhelliant na budd i unigolyn drwy ddisgrifio ei sefyllfa'n anghywir (oherwydd gall gael cymorth yn y naill achos neu'r llall), ond efallai y bydd y buddiolwr/partner cyflawni am gadarnhau p'un a yw'r unigolyn yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar er mwyn sicrhau bod y cyfranogwr yn cael y cymorth mwyaf priodol. Argymhellir mwy o ofal lle mae gweithrediad ond yn cefnogi pobl economaidd anweithgar neu bobl ddi-waith.

**Atodiad B**

Rhai enghreifftiau ymarferol (nad ydynt yn hollgynhwysfawr):

| **Meini prawf prosiect-benodol (grŵp targed):** | **Gofynion o ran tystiolaeth ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop:** |
|---|---|
| a) cyfranogwyr 25 oed a throsodd sy'n economaidd anweithgar ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth. | • Tystiolaeth bod gan y cyfranogwr hawl gyfreithiol i fyw a gweithio yn y DU<br>• Tystiolaeth bod y cyfranogwr yn economaidd anweithgar<br>• Tystiolaeth bod y cyfranogwr yn 25 oed neu drosodd<br>• Hunanddatganiad o'r rhwystrau a wynebir |
| b) Cyflogedig, gan gynnwys hunangyflogedig, heb unrhyw gymwysterau ffurfiol | • Tystiolaeth bod gan y cyfranogwr hawl gyfreithiol i fyw a gweithio yn y DU<br>• Tystiolaeth bod y cyfranogwr yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig<br>• Hunanddatganiad nad oes gan y cyfranogwr unrhyw gymwysterau |
| c) Cyflogedig, gan gynnwys cyfranogwyr hunangyflogedig ag addysg uwchradd is. (e.e. Blaenoriaeth 2, SO 2) | • Tystiolaeth bod gan y cyfranogwr hawl gyfreithiol i fyw a gweithio yn y DU<br>• Tystiolaeth bod y cyfranogwr yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig.<br>• Tystiolaeth bod y cyfranogwr wedi cyrraedd y lefel ofynnol o gyrhaeddiad addysgol. |

**Atodiad C**

Sut y gellir defnyddio system wirio ar-lein y Swyddfa Gartref ar 'Hawl i weithio yn y DU' yng nghyd-destun archwiliadau cymhwysedd sylfaenol ESF.

O 28 Ionawr 2019, cyflwynwyd gwasanaeth gwirio ar-lein 'hawl i weithio' gan y Swyddfa Gartref sy'n ceisio darparu "esgus statudol" i gyflogwyr yn erbyn cosb sifil os bydd achos o weithio'n anghyfreithlon mewn cysylltiad â'r un sy'n destun y gwiriad. Er bod y gwasanaeth ar-lein newydd hwn wedi'i anelu'n bennaf at gyflogwyr, mae WEFO o'r farn, o dan rai amgylchiadau, y gall y gwasanaeth hefyd weithredu fel llinyn defnyddiol o dystiolaeth ar gyfer prosiectau a gefnogir gan ESF y mae angen iddynt wirio hawl cyfranogwr i weithio yn y DU.

Gall cyfranogwyr sy'n dymuno profi eu 'hawl i weithio' gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein gael mynediad i hyn drwy Gov.UK (gweler y ddolen isod):

https://www.gov.uk/prove-right-to-work

Gall buddiolwyr, darparwyr a phartneriaid cyflenwi hefyd gadarnhau statws 'hawl i weithio' cyfranogwr drwy system wirio ar-lein y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, er mwyn gallu gwneud hynny, rhaid i gyfranogwr roi i fuddiolwyr/darparwyr/partneriaid cyflenwi (a) caniatâd ar gyfer mynediad i system y Swyddfa Gartref, ynghyd â (b) eu dyddiad geni a manylion 'cod rhannu' a neilltuwyd iddynt i gael gafael ar eu cofnod ar-lein i gadarnhau eu 'hawl i weithio'. Mae'r ' cod rhannu ' yn ddilys am 30 diwrnod yn unig, felly cynghorir buddiolwyr i ymweld â'r system wirio ar-lein yn ystod y cyfnod hwn. Gellir gweld y system wirio ar-lein yn: https://www.gov.uk/view-right-to-work

Mae'n rhaid i fuddiolwyr ddilyn y camau a amlinellir ar dudalennau 17-20 o ganllawiau'r Swyddfa Gartref, ' An Employer's Guide to Right To Work Checks', lle defnyddir yr opsiwn hwn i roi tystiolaeth o hawl cyfranogwr i weithio. Mae'r canllawiau ar gael yn:

Right to work checks: an employer's guide - GOV.UK (www.gov.uk)

Bydd angen i fuddiolwyr/darparwyr/partneriaid cyflenwi gadw tystiolaeth o'r gwiriad ar-lein h.y. storio'r dudalen 'proffil ' yn ddiogel gan gadarnhau hawl cyfranogwr i weithio, boed hynny'n ddogfen copi caled, ffeil PDF neu HTML. Yn achos ffeil PDF/HTML, rhaid i'r system rheoli TGCh/gwybodaeth a ddefnyddir gydymffurfio â Safon Brydeinig BSI BIP008-1:2014 neu ISO 27001:20136, h.y. safonau diogelwch cydnabyddedig y DU, fel y'u nodir yn adran 5.1.4.2 o Reolau Cymhwysedd Cymru.

Nodwch fod yr uchod yn opsiwn arall i alluogi cyfranogwyr/buddiolwyr i ddangos tystiolaeth o 'hawl i weithio' am gymorth drwy ymyriad ESF. Nid yw'n ofyniad gorfodol a gall cyfranogwyr a buddiolwyr ddefnyddio/darparu eitemau tystiolaeth eraill yn ôl y rhestr o'r dystiolaeth a ffefrir yn Rhan 4 o'r ddogfen hon.

## HANES Y FERSIYNAU


| Fersiwn | Dyddiad | Sylwadau |
|---|---|---|
| 1 | Ionawr 2016 | Cyhoeddi Fersiwn 1 |
| 2 | Mai 2017 | Cyhoeddi Fersiwn 2:<br>• Cyflwynwyd y ddogfen wedi’i diwygio<br>• Cynhwyswyd eitemau ychwanegol o ‘dystiolaeth a ffefrir’<br>• Cwestiynau cyffredin ychwanegol<br>• Diwygiwyd y siart llif i gynnwys Cam 2<br>• Ychwanegwyd Atodiad A - Credyd Cynhwysol<br>• Ychwanegwyd Atodiad B – Rhai enghreifftiau ymarferol |
| 3 | Tachwedd 2017 | Cyhoeddi Fersiwn 3:<br>• Ychwanegwyd Atodiad A diwygiedig - Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol |
| 4 | Chwefror 2019 | Cyhoeddi Fersiwn 4:<br>• Atodiad A diwygiedig i ddiweddaru’r berthynas rhwng budd-daliadau’r Adran Gwaith a Phensiynau a chymhwysedd statws cyflogaeth o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.<br>• Rhagor o ganllawiau yn Atodiad A ar dystiolaeth o gymhwysedd i gyfranogwyr sy’n cael Credyd Cynhwysol.<br>• Eglurhad ynglŷn â gofynion tystiolaeth pan fydd buddiolwr o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop eisoes yn dal data am ddinasyddion y gellir eu defnyddio i gadarnhau cymhwysedd, megis adrannau ac asiantaethau’r llywodraeth sy’n ymdrin â threth, budd-daliadau neu gofnodion personol tebyg (yn amodol ar gydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data).<br>• Eglurhad o’r grwpiau cyfranogwyr y mae WEFO yn eu cydnabod ei bod yn debygol y bydd angen defnyddio dull gweithredu ‘Cam 4’ ar eu cyfer yn fwy aml. |
| 5 | Ionawr 2020 | Cyhoeddi fersiwn 5:<br>• Rhan 4 - Tystiolaeth a Ffefrir i Gadarnhau bod Cyfranogwr yn gymwys i Gael Cymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, wedi'i diweddaru mewn perthynas â Thrwydded Breswylio Fiometrig (BRP), Cardiau Preswylio Biometrig (BRC) ac Adran Fisâu a Mewnfudo'r DU.<br>• Ychwanegu Atodiad C – manylion am sut y gellir defnyddio system wirio ar-lein y Swyddfa Gartref ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | 'Hawl i weithio yn y DU' i fodloni gwiriadau cymhwyster sylfaenol ESF |
| 6 | Mehefin 2020 | Cyhoeddi Fersiwn 6:<br>• Atodiad A diwygiedig i alinio â diffiniad sefydledig y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o 'Economaidd Anweithgar' |
| 7 | Chwefror 2021 | Cyhoeddi Fersiwn 7:<br>• Diwygiwyd Rhan 4 'tystiolaeth a ffefrir' i gynnwys Cynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE, h.y. y gall cyfranogwyr o'r UE, ar ôl 1 Ionawr 2021, gadarnhau eu statws o dan gynllun preswylio'n sefydlog yr UE i gadarnhau eu bod yn gymwys i gael cymorth ESF, ac<br>• Ar ôl 1 Gorffennaf 2021, **rhaid** i gyfranogwyr o'r UE gadarnhau eu statws o dan gynllun preswylio'n sefydlog yr UE i gadarnhau eu bod yn gymwys i gael cymorth ESF. |
| 8 | Mawrth 2021 | Diwygiwyd Rhan 4 'tystiolaeth a ffefrir'. |
| 9 | Mawrth 2022 | Cyhoeddi Fersiwn 9:<br>• Diwygiwyd Rhan 3 – Cwestiynau Cyffredin i gynnwys canllawiau ychwanegol ar gymhwysedd cyfranogwyr ar gyfer gwladolion Wcráin.<br>• Diwygiwyd Rhan 4 'tystiolaeth a ffefrir' i nodi na ellir mwyach, o 6 Ebrill 2022 ymlaen, ddefnyddio Trwydded Breswylio Fiometrig fel tystiolaeth o hawl i weithio yn y DU. |












**Am ragor o wybodaeth:**

**www.gov.wales/eu-funding**

**@wefowales / @wefocymru**

**Desg Gymorth Ymholiadau 0845 010 3355**

**Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru**

**EU Funds: Investing in Wales**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government